# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

**RHAN 2**

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Deddfwriaeth yn dod i rym*

### 31 Gorchmynion a rheoliadau sy'n dwyn Deddfau'r Cynulliad i rym

Pan fo Deddf Cynulliad yn darparu i orchymyn neu reoliadau benodi—

(a) y diwrnod y daw'r Ddeddf i rym, neu

(b) y diwrnod y daw darpariaeth yn y Ddeddf i rym,

caiff y gorchymyn neu'r rheoliadau benodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.